**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**—**
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog
Llywodraeth Cymru

8 Hydref 2021

Craffu Gweinidogol ar gysylltiadau Rhyngwladol

Annwyl Mark,

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i swyddogion Llywodraeth Cymru a ddaeth i'w gyfarfod ddydd Mercher 15 Medi 2021 i roi briff technegol i'r Aelodau. Fel yr amlinellwyd i'r swyddogion yn y cyfarfod, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am nifer o'r materion sy'n codi yn dilyn y sesiwn. Amlinellir y rhain o dan yr is-benawdau perthnasol isod.

## Strategaeth ryngwladol

Mae'r Pwyllgor yn nodi y lansiodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ryngwladol ym mis Ionawr 2020, ar adeg pan oedd gweinidog penodedig i'r pwnc. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod nifer o feysydd a oedd yn arfer bod yng nghylch gwaith gweinidog penodedig ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol bellach yn rhan o'ch portffolio chi. O ystyried faint o amser sydd wedi mynd heibio ers lansio'r strategaeth a'r ffaith nad oes gweinidog penodedig ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol, a fyddech cystal â nodi sut mae ymgysylltu a chysylltiadau rhyngwladol yn cael eu cydgysylltu ar draws y llywodraeth?

Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn am y wybodaeth a ganlyn mewn perthynas â'r strategaeth:

- amlinelliad o hynt y gwaith yn erbyn pob cynllun gweithredu, yn ogystal â sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur yn ystod eu hoes;
- amlinelliad o'r dyraniadau cyllideb ac adnoddau ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol a chyfredol ar gyfer y strategaeth a phob un o'r cynlluniau gweithredu. Lle bo modd, dylai'r wybodaeth hon amlinellu sut mae cyllid ac adnoddau'n cael eu rhannu rhwng pob un o'r cynlluniau gweithredu. Os caiff cyllidebau eraill eu dyrannu i weithgaredd rhyngwladol arall yn Llywodraeth Cymru, byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar am y wybodaeth hon hefyd; ac

- amlinelliad o sut mae arian y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wario ar ei gwaith cysylltiadau rhyngwladol wedi newid flwyddyn ar ôl blwyddyn ers mis Mehefin 2016.

### Swyddfeydd tramor

Fe wyddoch y gwnaeth Llywodraeth Cymru roi adroddiadau perfformiad chwarterol i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn y Bumed Senedd ar weithgaredd ei swyddfeydd tramor. Mae'r Pwyllgor hwn yn gofyn i'r trefniant hwn barhau yn ystod y Chweched Senedd, a hynny drwy gyhoeddi adroddiad blynyddol yn lle chwarterol. Er mwyn helpu'r Pwyllgor i graffu ar waith y swyddfeydd tramor, byddai'n ddiolchgar pe gallai'r adroddiad amlinellu'r cynnydd a wnaed gan bob swyddfa yn erbyn yr amcanion a osodwyd iddynt, yn ogystal â nifer y staff a'r gyllideb sydd wedi'u dyrannu ar gyfer pob un o'r swyddfeydd tramor.

### Cymru yn Ewrop a chysylltiadau rhanbarthol a chenedlaethol â blaenoriaeth

Mae'r Pwyllgor yn nodi sut mae'r cyfrifoldeb ynghylch 'Cymru yn Ewrop' yn rhan benodol o'ch portffolio, ac mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi y bydd y Llywodraeth yn cadw swyddfa ym Mrwsel. A fyddech cystal â darparu gwybodaeth am y canlynol:

- a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi strategaeth Cymru yn Ewrop sy'n adlewyrchu'r trefniadau newydd rhwng y DU a'r UE; ac
- ymgysylltiad presennol Llywodraeth Cymru â sefydliadau'r UE, a'r ymgysylltiad yn y dyfodol.

### Pandemig Covid-19

O ran pandemig Covid-19, a fyddech cystal â disgrifio:

- sut mae'r pandemig wedi effeithio ar y modd y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni'r strategaeth ryngwladol a'i gweithgareddau ymgysylltu rhyngwladol ehangach; ac
- effaith hirdymor y defnydd o ymgysylltu digidol ar waith cyfathrebu ac ymgysylltu Llywodraeth Cymru â phartneriaid rhyngwladol. Yn gysylltiedig â hyn, byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu eich asesiad o effaith y pandemig ar gynnal cysylltiadau presennol, ynghyd â gallu Llywodraeth Cymru i greu cysylltiadau newydd.

### Meysydd eraill

Fel y gwyddoch, mae gan y Pwyllgor gylch gwaith eang sydd hefyd yn cynnwys diwylliant, cyfathrebu, y Gymraeg a chwaraeon. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor yn awyddus i ymchwilio i rôl cysylltiadau rhyngwladol drwy brism y portffolios eraill yn ei gylch gwaith. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech:

- amlinellu'r blaenoriaethau tymor byr a thymor canolig ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol yn y meysydd portffolio hyn; a

- rhoi diweddariad ar unrhyw asesiadau o bŵer meddal y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â nhw, gan gynnwys ei chyfranogiad mewn unrhyw astudiaethau a/neu arolygon diweddar neu sydd ar y gweill.

Presenoldeb mewn cyfarfodydd

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am gyfle i drafod y materion uchod gyda chi. Mae’r Pwyllgor i fod i gwrdd ar y dyddiadau canlynol:

- 10 Tachwedd 2021
- 24 Tachwedd 2021
- 8 Rhagfyr 2021
- 15 Rhagfyr 2021
- 19 Ionawr 2022
- 2 Chwefror 2022
- 2 Mawrth 2022
- 16 Mawrth 2022

Os nad oes unrhyw un o'r dyddiadau hyn yn addas, gall y Pwyllgor ofyn am slot ar gyfer cyfarfod ychwanegol er mwyn sicrhau eich bod ar gael.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 5 Tachwedd 2021 fan bellaf.

Yn gywir



Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.